LEARNABOUTFILM

FFILM GREADIGOL MEWN YSGOLION



ffilm CYMRU WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

BFI

MAE'R ADRODDIAD HWN YN DISGRIFIO PROSIECT FFILM ARLOESOL A GYNHALIWYD YN YSGOLION CYNRADD YN NE CYMRU.

Mae Ffilm a'r Cyfryngau Digidol yn un o'r pum disgyblaeth sy'n perthyn i faes y Celfyddydau Mynegiannol ar y cwricwlwm newydd. Sut gall plant ysgolion cynradd ddysgu am ffilm a'i defnyddio mewn modd creadigol?

Gyda chefnogaeth Ffilm Cymru Wales a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, wnaeth Learnaboutfilm gynnal peilot ar gyfer prosiect sy'n canolbwyntio ar sut i wylio a sut i wneud ffilm.

Bu i ni seilio ein dull o weithio ar Le Cinéma, Cent Ans de Jeunesse (Sinema, 100 Mlynedd o Ieuenctid), rhaglen ryngwladol sydd wedi ei hen sefydlu.

Mae'r prosiect hwn, sydd wedi ei leoli ym Mharis, yn archwilio un thema'r flwyddyn ac yn datblygu cyfres bwrpasol o weithgareddau gwneud ffilm, gyda chysylltiadau i glipiau ffilm sydd wedi eu dewis a'u dethol yn arbennig. Mae'r plant yn gweithio drwy set o 'sialensiau' gwneud ffilm, yna'n mynd yn eu blaenau i greu 'traethawd ffilm' 5-10 munud o hyd.

Mae'r prosiect yn ehangu profiad y plant o diwylliant ffilm, yn datblygu eu dealltwriaeth o iaith ffilm, ac yn annog dull meddylgar a deallus o wneud ffilm. Y "tair C" yw enw addysgwyr ffilm Ewrop ar y dull hwn: cultural, critical and creative (diwylliannol, beirniadol a chreadigol).

Ysgrifenwyd gan
Tom Barrance, Learnaboutfilm

Cyllidir y project gan
Ffilm Cymru Wales
Sefydliad Ffilm Prydeinig

Yr ysgolion
Ysgol Gynradd Jenner Park, Y Barri

Ysgol Gynradd Sant Andrew, Casnewydd

Ysgol Ifor Hael, Casnewydd

CYCHWYN Y PROJECT

Buom yn gweithio gydag ysgolion yng Nghasnewydd a'r Barri, gyda lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ac â thalgylch ethnig amrywiol.

Bu i ni ddechrau'r prosiect gyda sesiwn hyfforddi. Rhoddais gyflwyniadau am egwyddorion addysg ffilm a sut i wneud ffilmiau yn ymarferol gan ddefnyddio iPads, a chyflwynodd Mark Reid o'r BFI y prosiect CCAJ, y clipiau a'r gweithgareddau.

Yn wreiddiol, cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn wyneb yn wyneb, ond wedi ailgychwyn y prosiect wedi'r cyfnod clo, roedd rhaid darparu fideos wedi eu recordio ymlaen llaw i'w llawrlwytho. Gwnaethom hefyd roi pecyn o adnoddau PDF i'r ysgolion, ynghŷd â fy llyfr iPad rhyngweithiol, 'Making Movies Make Sense'.

Y thema ar gyfer 2020-21 oedd 'Amser mewn Sinema'. Lluniodd Mark gynllun gwaith deg wythnos i'r ysgolion ei ddilyn. Gallwch ei weld yma.

I gychwyn edrychodd y plant ar y ffordd symlaf o wneud ffilm: un saethiad byr, di-dor gyda'r camera'n aros yn llonydd. Bu iddynt wylio ffilm y Brodyr Lumière Washerwomen on the River, (1897) gan drafod sut mae amser yn cael ei gyfleu yn y ffilm.

Yna gwnaeth y plant eu 'Munudau Lumière' eu hunain i ddangos treigl amser. Bu iddynt ffilmio pethau fel tywod yn llifo drwy beth berwi ŵy, neu awyren bapur yn siglo yn y gwynt.



Mae o leiaf tri math o amser yn y ffilm yma. Nid yw'r olchwraig yn profi amser yr un fath â'r dynion sy'n ei gwylio, ac mae llif yr afon yn fath arall o amser.

Munud Lumière gan Ysgol Gynradd Jenner Park.

SIALENS FFILM 1: TRI SAETHIAD

Sialens gyntaf y CCAJ oedd ffilmio tri saethiad unigol fyddai'n archwilio sut mae ffilmiau'n dangos amser yn mynd heibio. Y rhain oedd:

- saethiad unigol i ddangos amser yn mynd heibio ('imprint' amser)
- saethiad sy'n cynnwys elfen o densiwn a phwysau, fel ras yn erbyn amser
- saethiad sy'n dangos trawsffurfiad corfforol.

© Bill Viola

Bu i osodiad fideo Bill Viola, The Dreamers, gynnig ysbrydoliaeth ar gyfer yr ail saethiad (tensiwn, pwysau neu ras yn erbyn amser).

Defnyddiodd Ysgol Ifor Hael fideo treigl amser ('timelapse') i ddangos loli rhew yn toddi.

SIALENS FFILM 2:
CYNIGION HIR A DILYNNIANAU WEDI EU GOLYGU

Wedyn, bu iddynt ffilmio'r un digwyddiad fel cyfres o saethiadau ar wahân. Fel hyn mae'r rhan fwyaf o ffilmiau'n cael eu gwneud. Maent yn cael eu ffilmio a'u golygu fel bod y symudiad yn ymddangos yn ddi-dor.

Pan roedd yn bosib i mi ymweld â'r ysgolion dangosais y broses yma i'r plant.

Yn gyntaf, gofynnais i blentyn sefyll o flaen y dosbarth a chyflawni un weithred syml. Mae'r plentyn yn cerdded i fewn i'r saethiad, yn seibio, yn gweld rhywbeth ar y llawr, ac yna'n ei godi.

Ffilmiais y symudiad cyfan fel un saethiad hir (o'r pen i'r traed) o'r ochr.

Yna, gofynnais i'r plentyn gyflawni'r un weithred nifer o weithiau wrth i'r plant eraill ei ffilmio. Roedd y saethiad yn wahanol bob tro: saethiad ganolig (o'r cluniau i'r pen) o'r tu blaen, saethiad agos o'r wyneb, a saethiad agos o'r dwylo. Wedyn roedd y plentyn oedd yn actio yn ffilmio'r gwrthrych fel 'saethiad safbwynt'.

Yna dangosais iddynt sut i olygu'r pum saethiad at ei gilydd fel bod y dilyniant yn ymddangos fel un olygfa ddi-dor. Bu i mi wneud hyn drwy 'cydweddu ar y digwyddiad': torri pan fo'r weithred yn digwydd yn yr un lle ym mhob saethiad. Dangosais hefyd pam ei bod mor bwysig ffilmio o un ochr i ddigwyddiad, fel bod y saethiadau yn gwneud synnwyr wedi iddynt gael eu golygu at ei gilydd.

Wedyn gweithiodd y plant mewn grwpiau i ffilmio a golygu'r un weithred ar eu pen eu hunain.

© Universal Pictures

Mae dilyniant agoriadol ffilm Orson Welles, 'Touch of Evil', yn un o'r cynigion hir mwyaf adnabyddus yn hanes sinema.

Y TRAETHAWD FFILM

Yn y 'Traethawd Ffilm' terfynol roedd rhaid i'r plant weithio gyda'i gilydd i wneud ffilm hirach. Roedd arweiniad y CCAJ yn caniatau hyd at 10 munud, er i ni awgrymu pum munud.

Roedd yn rhaid i'r ffilm orffenedig gynnwys y rhain:

- 'Dangos' a 'Dweud';
- o leiaf un newid mewn cyflymdra;
- rhannau ble mae'r weithred yn cael ei gosod i un ochr, fel bod y gwyliwr yn profi amser yn mynd heibio.

Defnyddiodd yr ysgolion ddulliau gwahanol i gyflawni hyn. Bu i un greu'r ffilm fel dosbarth cyfan, gyda phob plentyn yn y dosbarth yn ymddangos yn y ffilm orffenedig; bu i un arall rannu'r dosbarth yn grwpiau o bump neu chwech, gyda phob grŵp yn gwneud ffilm wahanol.

Ar ddiwedd tymor yr Haf cafodd dangosiad ar-lein ei drefnu ble gafodd y plant gyfle i ddangos a siarad am eu ffilmiau.

Mae'r traethawd ffilm yma, gan Ysgol Gynradd Sant Andrew, yn adrodd hanes chwilio am ddraig.

GWEITHGAREDDAU ERAILL

I ddatblygu dealltwriaeth y plant o saethiadau, dyfeisiodd un athrawes 'helfa sborion'. Rhoddodd iPad a thudalen nodiadau i'r disgyblion a gofyn iddynt ffilmio enghreifftiau o fathau gwahanol o saethiadau, er enghraifft, saethiad 'golwg oddi uchod', saethiad agos a saethiad agos iawn.

EFFAITH A SIALENSIAU'R PROSIECT

Dywedodd yr athrawon fod y prosiect ffilm wedi eu cynorthwyo i ddenu ac i ddal sylw plant oedd fel arfer yn amharod i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

Cafodd y prosiect effaith gadarnhaol ar wahanol agweddau o'r cwricwlwm, yn enwedig ar lafaredd, ar sut i weithio fel tîm a sut mae cymryd eu tro, ac ar chwarae rôl o fewn grŵp. Mae Munudau Lumière yn rhoi cyfle i ystyried amseru a mathemateg.

Bu i'r plant fwynhau'r gweithgareddau 'trawsffurfio' yn fawr iawn, gan gymryd amser i'w cynllunio'n ofalus.

Roedd y prosiect wedi cyffroi rhai grwpiau yn aruthrol, gan eu bod wedi bod wrthi'n cynllunio wedi oriau ysgol ac yn ystod amser chwarae.

Bu i un ferch ailadrodd y gweithgaredd 'cydweddu ar y digwyddiad' yn annibynnol, gartref. Roedd un plentyn tawel wedi gwirioneddol fwynhau actio, ac un arall wedi ymroi'n llwyr i weithredu'r camera.

Roedd rhai sialensiau'n bodoli. Roedd athrawon wedi nodi bod ymddygiad a gallu'r plant i ganolbwyntio wedi dioddef yn ystod y cyfnod clo. Dywedodd un athrawes ei bod yn anodd i'w disgyblion ganolbwyntio ar y tameidiau hirach o ffilm, ac y byddai thema fwy cyffrous gyda 'mwy o fynd' ynddi wedi eu denu'n haws.

Mae model prosiect CCAJ yn cynnwys hyfforddiant i athrawon ac i ymarferwyr addysg ffilm sy'n gweithio'n uniongyrchol â disgyblion. Oherwydd cyfyngiadau Covid roedd rhaid cynnal yr hyfforddiant ar-lein, ac nid oedd yn bosib i mi ymweld â'r ysgolion hyd nes oedd y prosiect eisoes wedi datblygu i raddau helaeth.

FFILM A'R CWRICWLWM YNG NGHYMRU

Mae ymdriniaeth CCAJ yn cydweddu'n dda gyda'r cwricwlwm ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol, sy'n nodi

- dylai plant gael cyfleodd cyfartal a theg wrth ymwneud â'r pum disgyblaeth, gan gynnwys ffilm a'r cyfryngau digidol;
- dylid gweld cynnydd o ran cymhlethdod, rheolaeth, dyfnder ac annibyniaeth;
- dylai plant weithio'n annibynnol ac ar y cyd, a phrofi "arddulliau, genres a thestunau creadigol ar draws yr holl ddisgyblaethau a chan gwmpasu pobl, lleoedd, diwylliannau a chyfnodau".

ELFENNAU ALLWEDDOL DULL CCAJ

Os hoffech ddefnyddio'r dull hwn yn eich ysgol, dyma'r elfennau allweddol.

DIWYLLIANNOL

Gall plant ddysgu llawer wrth wylio ffilmiau o wahanol ddiwylliannau, dulliau a chyfnodau. Ni fydd gennych fynediad at gronfa ffilm gyfan y CCAJ, ond mae opsiynau eraill ar gael.

- Mae nifer o ffilmiau'r Brodyr Lumière ar gael ar-lein.
- Mae Clybiau Ffilm Into Film (sy'n rhad ac am ddim yng Nghymru) yn darparu mynediad at amrediad eang o ffilmiau.

BEIRNIADOL

Dylai plant ddatblygu dealltwriaeth o sut mae ffilm yn adrodd stori, a'r gwahanol dechnegau mae gwneuthurwyr ffilm wedi eu defnyddio.

CREADIGOL

Dylai sut mae plant yn gwylio ffilmiau yngŷd â'u dealltwriaeth beirniadol, eu hysbysu ynglŷn â sut mae gwneud ffilmiau pwrpasol.

CYNGOR AR GYFER PROJECTAU FFILM

DECHRAU WRTH EICH TRAED

Dechreuwch gyda gweithgareddau syml - 'Munudau Lumière', neu hyd yn oed ffotograffau - ac ychwanegwch weithgareddau fwyfwy cymhleth wrth fynd yn eich blaen.

CADWCH HI'N FYR

Pa bynnag fath o ffilm mae eich disgyblion yn ei gwneud, dylai fod yn un fer. Mae hyd yn oed ffilm o tri deg eiliad yn cymryd amser i wneud yn dda.

GWNEUD-FFILMIAU GYDAG IPADS

Bu i'r holl ysgolion a gymrodd ran yn y prosiect yma ddefnyddio iPads ar gyfer y gwaith ffilmio a golygu. Maent yn hawdd i'w defnyddio ac maent ar gael yn y rhan fwyaf o ysgolion, ond mae ambell anfantais yn perthyn iddynt. Mae'n anodd pan nad oes digon o olau; gallant fod yn anodd i'w dal yn llonydd; a gall fod yn anodd gweld y sgrîn pan yn ffilmio y tu allan

APPS

Bu i bob ysgol ar y prosiect yma ddefnyddio iMovie, app golygu Apple. Mae VN Editor yn app arall (sydd hefyd yn rhad ac am ddim) y gallwch ei ystyried, sydd hefyd yn gweithio ar ddyfeisiau Android.

Gall y cynghorion yma eich cynorthwyo i sicrhau gwell canlyniadau wrth ffilmio gydag iPads:

- Defnyddiwch gadach meddal i lanhau'r lens. Mae lenses budr yn rhoi delweddau aneglur.
- Sicrhewch bod digon o gof ar gael i recordio fideo – yn aml mae iPads mewn ysgolion yn llawn. Gallwch ddileu unrhyw ffotograffau a fideos di-angen. Er mwyn rhyddhau gofod, byddwch angen agor albwm o'r enw 'Recently Deleted' er mwyn eu dileu'n barhaol.
- Sicrhewch fod yr app golygu iMovie gennych. Weithiau mae iPads yn cael gwared ar apps i arbed gofod.
- Defnyddiwch drybedd neu glamp, neu gorffwyswch eich dyfais ar rywbeth.
- Ceisiwch gael y plant i ymarfer dal y ddyfais yn llonydd wrth ffilmio.
- Sicrhewch bod y plant yn ffilmio digon: deg eiliad o leiaf, neu bum eiliad cyn neu wedi unrhyw ddigwyddiad.
- Dysgwch blant i ffilmio i ffwrdd o'r golau.
- Dysgwch nhw i glymu'r dinoethiad (drwy gyffwrdd a dal ar y sgrîn), er mwyn ei stopio rhag newid yn ystod ffilmio saethiad.

CINÉMA, CENT ANS DE JEUNESSE

Gallwch weld rhai o brosiectau'r flwyddyn flaenorol, ac enghreifftiau o'r ffilmiau a'r gweithgareddau ar wefan y CCAJ yma:

https://www.cinemacentansdejeunesse.org/en/resources/all-the-questions.html

Gallwch wylio rhai o 'Funudau Lumière' y bobl ifanc yma:

https://www.cinemacentansdejeunesse.org/en/lumiere-minutes.html

ac mae rhagor am y Munudau Lumière gwreiddiol ar y dudalen yma:

https://www.cinemacentansdejeunesse.org/en/programme/first-shots.html

RHAI O FFILMIAU'R PLANT

LUMIERE MINUTE

Maes Chwarae

TRAWSFFURFIADAU

Loli Iâ

Te

TRAETHODAU FFILM

Brad

Cynffon y Ddraig